# Brain coesgoch

# Brain coesgoch

## Cyflwyniad:

Aderyn du yw'r frân goesgoch, sydd â phig a thraed coch llachar. Er arferai fod yn gyffredin ar hyd y DU, erbyn hyn ceir ond hyd iddi mewn ardaloedd bychan ar arfordir Cymru, Cernyw a rhai o ynysoedd yr Alban. Mae'r frân goesgoch yn rhan o'r un teulu â brain a jac-y-dos, ac fel y rhain, maent hefyd yn hynod ddeallus; maent yn adnabyddus am eu campau acrobatig yn yr awyr, gan hedfan yn uchel uwchben clogwyni'r arfordir, a disgyn a throelli o gwmpas ei gilydd. Mae pobl yn aml yn dweud bod y frân goesgoch yn ymddangos fel pe bai yn chwarae ac wir yn mwynhau hedfan.

Mae arfordir Llŷn yn lle da i weld y frân goesgoch. Mae angen cynefin penodol ar y frân goesgoch er mwyn ffynnu. Mae'n bwydo ar infertebratau bychain megis morgrug, ac felly mae angen llystyfiant sydd yn ddigon byr iddi borthi ynddo, ond yn ddigon hir ac amrywiol er mwyn i infertebratau allu ffynnu. Cedwir y gwair ar ei uchder perffaith naill ai drwy bori anifeiliaid neu drwy'r gwynt garw a'r halen a cheir mewn ardaloedd o glogwyni arfordirol. Mae'r rhywogaeth hon yn fregus i newidiadau mewn arferion ffermio sy'n medru gwneud ei chynefin yn anaddas ar gyfer bwydo.

Mae'r frân goesgoch wedi bod o ddiddordeb mawr i bobl ers amser maith. Ganrifoedd yn ôl, ynghyd ag aelodau eraill o deulu'r frân, roeddent yn cael eu cadw fel anifeiliaid anwes. Un o'r chwedleuon enwocaf i ddefnyddio'r adar diddorol yma yw chwedl Brenin Arthur, y dywedir na fu farw mewn brwydr, ond yn hytrach mudodd ei enaid i gorff brân goesgoch.

**Rhostir yr arfordir:**
Mae amryw o wahanol fathau o rostiroedd yn y DU. Mae brain coesgoch yn ymgartrefu mewn rhostir arfordirol. Mae'r tirweddau agored hyn yn cynnwys llwyni bach a gwydn yn bennaf, megis grug ac eithin, wedi eu plethu gyda thir fferm pori. Mae gwyntoedd cryfion ac aer hallt iawn yr arfordir yn golygu na all llystyfiant dyfu'n arbennig o uchel, ac ni all coed dyfu. Maent yn gartref i fathau arbennnig o blanhigion ac infertebratau sydd yn eu tro yn bwydo adar ac anifeiliaid mwy. Mae rhostir isel agored yn gynefin mwy prin na choedwig law ac mae gorllewin Gwynedd yn un o ardaloedd y DU sydd yn dal i fod â nifer arwyddocaol ohonynt.

**Geiriau allweddol er mwyn ymchwil pellach:**
*Pyrrhocorax pyrrhocorax*, brân Gernyw, rhostir, corvidae, Pen Llŷn, Ymddiriedolaeth Adareg Prydain, porfa, modrwyo adar, cadwraeth, brân goesgoch

# Helfa rhostirol







## Canllaw gweithgaredd:

Yr offer sydd ei angen:

- Taflenni rhywogaeth wedi'u hargraffu (L_C_ 1)
- Tocynnau gwobrwyo
- Y daflen ffeithiau

**I chwarae'r gêm:**

Gellir chwarae'r gêm y tu allan gyda phlant yn rhedeg i sefyll y tu ôl i'r ateb cywir, neu mewn ystafell ddosbarth gyda phlant yn pleidleisio am yr atebion cywir gyda slipiau papur a'u henwau arnynt, neu drwy roi eu dwylo i fyny. Mae'r cyfarwyddiadau isod ar gyfer y fersiwn tu allan.

1. Gosodwch y chwe llun o'r rhywogaethau ar y llawr gyda digon o le o'u cwmpas er mwyn i'r plant ymgynnull.
2. Darllenwch y ffeithiau fesul un. Bydd y plant yn rhedeg at ba bynnag rywogaeth maen nhw'n teimlo y mae'r ffaith yn cyfeirio ati.
3. Mae'r plant sydd y tu ôl i'r rhywogaeth gywir yn derbyn tocyn.
4. Parhewch i ailadrodd hyn hyd nes bod rhywun yn cyrraedd chwe thocyn.
5. Yna, gellir trafod y ffeithiau a'r rhywogaethau fel dosbarth.

# Helfa rhostirol



## Ffeithiau:

- Gallwn gyrraedd cyflymderau o 45mya **- Sgwarnog**
- Rydym yn rhoi genedigaeth i rhwng 6 a 20 neidr ifanc **- Gwiber**
- Mae gennym ni led adenydd o 20cm **- Clochdar y cerrig**
- Rydym yn nythu mewn ogofau môr, hen weithfeydd cloddio, adeiladau gwag **- Y frân goesgoch**
- Mae angen i ni ddefnyddio'r haul er mwyn cynhesu **- Gwiber**
- Mae ganddo bigau miniog i atal anifeiliaid rhag pori **– Eithin**
- Rydym yn paru am oes **- Y frân goesgoch**
- Gellir ein gweld yn aml yn eistedd ar frig llwyni'r eithin **- Clochdar y cerrig**
- Credir ein bod wedi cael ein cyflwyno i'r DU yn ystod y Cyfnod Rhufeinig **- Sgwarnog**
- Gellir ei ddefnyddio fel llifyn lliw melyn **– Eithin**
- Mae hefyd yn cael ei alw'n 'Honos' **- Grug**
- Rydym wrth ein bodd yn bwyta morgrug **- Y frân goesgoch**
- Roedd yn arfer cael ei ddefnyddio i greu ysgubellau **- Grug**
- Mae'n arogli fel cnau coco **- Eithin**
- Mae gennym ni alwad uchel finiog sy'n swnio fel dwy garreg yn cael eu taro ynghyd **- Clochdar y cerrig**
- Gall fyw am dros 40 mlynedd **- Grug**
- Nid ydym yn tyrchu, ond rydym yn cysgodi mewn pantiau bas yn y ddaear neu'r gwair **- Sgwarnog**
- Mae gennym ni lygaid coch **- Gwiber**


Llun: Vincent van Zalinge on Unsplash
Sgwarnog


Llun: Jean-Jacques Boujot is licensed with CC BY-SA 2.0.
Y frân goesgoch


Clochdar y cerrig
Llun: Jo Reeve is licensed with CC BY 2.0.


Grug
Llun: Svetlana Sinitsyna on Unsplash


Eithin
© Samantha Bryan.


Gwiber
Llun: naturalengland is licensed with CC BY-NC-ND 2.0

# Taflen waith chwedlau







## Canllaw gweithgaredd:

Yr offer sydd ei angen:

- Argraffwch y ddwy daflen waith 'Chwedlau' ar gyfer pob disgybl
- Pensiliau neu bennau lliw

**I gwblhau'r daflen:**

1. Trafodwch y syniad o chwedlau a sut y cawsant eu defnyddio i egluro llawer o'r byd naturiol cyn gwyddoniaeth.

2. Mae pob disgybl yn gweithio ar y daflen waith yn mapio prif bwyntiau eu chwedl ar y bwrdd stori ac yn tynnu lluniau i gyd-fynd â nhw.

# Chwedlau

Mae brain coesgoch yn rhan o nifer o chwedlau. Mae eu campau acrobatig chwareus a'u clyfrwch wedi dylanwadu ar lawer o straeon. Ysgrifennwch eich chwedl eich hun am y frân goesgoch, a llenwch y blychau isod gyda darluniau a geiriau sy'n dweud eich stori. Cofiwch gynllunio ymlaen llaw oherwydd dim ond chwe blwch sydd gennych i ddweud eich stori gyfan.



Mae'r frân goesgoch yn byw am saith mlynedd ar gyfartaledd.